# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** | Llinos Madeley |
| **Dyddiad: Dydd Iau,** | Clerc y Pwyllgor |
| **19 Tachwedd 2015** | 0300 200 6565 |
| **Amser: 09.15** | SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru |

## 1 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro

(09.15)

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.15)

## 3 Papurau i'w nodi

(09.15)

**Cofnodion y cyfarfod ar 11 Tachwedd 2015**

(Tudalennau 1 - 3)

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

(Tudalennau 4 - 5)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(09.15)

## 5 Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru):  trafodaeth am drefn ystyried trafodion Cyfnod 2

(09.15 - 09.20) (Tudalen 6)

## 6 Bil Cymru drafft: trafod y canfyddiadau

(09.20 - 09.45)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 7 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafod yr adroddiad drafft

(09.45 - 12.30) (Tudalennau 7 - 74)

## Cinio (12.30 - 13.15)

## 8 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafod yr adroddiad drafft

(13.15 - 15.00)

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

**Dyddiad: Dydd Mercher,**

**11 Tachwedd 2015**

**Amser: 09.17 - 12.17**

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David Rees AC (Cadeirydd)<br>Alun Davies AC<br>John Griffiths AC<br>Altaf Hussain AC<br>Elin Jones AC<br>Darren Millar AC<br>Lynne Neagle AC<br>Gwyn R Price AC<br>Lindsay Whittle AC<br>Kirsty Williams AC |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Amy Clifton (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Bil Cymru drafft: trafod effaith y Bil ar gymhwysedd deddfwriaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

2.1 Trafododd y Pwyllgor effaith Bil Cymru drafft ar gymhwysedd deddfwriaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i gyfrannu at ei waith craffu cyffredinol ar Fil Cymru drafft, ac i anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Prif Weinidog a'r Llywydd.

## 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafod yr adroddiad drafft

3.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Cytunodd y Pwyllgor i drafod yr adroddiad drafft eto yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2015.

3.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(ii), pleidleisiodd y Pwyllgor ar y cynnig a ganlyn, a gynigiwyd gan Darren Millar AC gyda chefnogaeth Alun Davies AC, ac fe'i derbyniwyd gan y Cadeirydd heb rybudd yn unol â Rheol Sefydlog 17.44:

Bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer adrodd ar gasgliadau ei drafodaeth Cyfnod 1 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

Dyma ganlyniad y bleidlais:

| **O blaid** | **Yn erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Alun Davies<br>Altaf Hussain<br>Elin Jones | John Griffiths<br>Lynne Neagle<br>Gwyn Price | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Darren Millar<br>Lindsay Whittle<br>Kirsty Williams | David Rees | |
| 6 | 4 | 0 |
| **Derbyniwyd y cynnig.** | | |

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Cofnodion y cyfarfod ar 5 Tachwedd 2015

4.1a Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

### 4.2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol.

Eitem 3.2

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-MD-0127-15

David Rees AM
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

12 Tachwedd 2015

Annwyl David

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am eich cymorth parhaus mewn perthynas â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

Rwy'n falch o roi rhagor o wybodaeth bellach i'r Pwyllgor am y materion canlynol a godwyd yn eich gohebiaeth, dyddiedig 9 Tachwedd:

<u>E-sigaréts heb nicotin</u>

Mae'r term 'dyfais mewnanadlu nicotin' (NID) yn cael ei ddefnyddio yn y Bil ac mae'n cael ei ddiffinio fel: " *dyfais sy'n galluogi nicotin i gael ei fewnanadlu drwy getyn ceg (pa un a yw'r ddyfais hefyd yn galluogi unrhyw sylwedd arall gael ei fewnanadlu ai peidio)".* Felly, nid yw'r diffiniad yn cynnwys e-sigaréts heb nicotin oni bai y gallant hefyd gael eu defnyddio i fewnanadlu nicotin, er enghraifft drwy newid y getrisen wreiddiol â chetrisen sy'n cynnwys nicotin, neu drwy lenwi cetrisen neu danc â hylif sy'n cynnwys nicotin. Fel y cyfryw, byddai dyfeisiau a allai alluogi nicotin i gael ei fewnanadlu drwy getyn ceg yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau mewnanadlu nicotin mewn mannau cyhoeddus a gweithleodd caeedig a sylweddol gaeedig.

Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer dyfeisiau eraill, neu ddisgrifiadau o ddyfais, i'w cynnwys ym Mhennod 1 o'r Bil, os ydynt yn fodlon bod hyn yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru. Gall dyfeisiau ychwanegol o'r fath alluogi nicotin i gael ei fewnanadlu ai peidio.

Yn ôl y Datganiad o Fwriad y Polisi, nid oes bwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau hyn mewn perthynas â dyfais benodol neu ddisgrifiad o ddyfais. Serch hynny, pe gwelid bod dyfeisiau mewnanadlu heb nicotin nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o NID

yn y Bil fel y'i cyflwynir yn tanseilio'r gofynion di-fwg a sefydlwyd gan y Bil, byddai'r pŵer hwn i wneud rheoliadau'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn y gofynion i gynnwys dyfeisiau o'r fath. Byddai unrhyw Reoliadau sy'n cael eu gwneud drwy ddefnyddio'r pwerau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn destun ymgynghoriad ac yn bwnc dadl mewn cyfarfod llawn.

Tybaco sydd wedi'i danio

Mae'r diffiniad o ysmygu yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys bod yn berchen ar dybaco wedi'i danio neu unrhyw sylwedd wedi'i danio sy'n cynnwys tybaco, neu'n berchen ar unrhyw sylwedd wedi'i danio arall mewn ffurf a allai gael ei ysmygu. Ni fyddai'r cynhyrchion tybaco wedi'i danio sydd ar gael yn y farchnad ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o ysmygu gan nad yw'r tybaco ynddynt yn cael eu tanio. Fodd bynnag, byddai'r dyfeisiau tybaco wedi'i danio hyn yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o NID yn y Bil fel y'i cyflwynwyd gan eu bod yn galluogi mewnanadlu nicotin drwy getyn ceg. Felly, byddai'r cynhyrchion tybaco wedi'i danio sydd ar gael yn y farchnad ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau'r Mesur ar ddefnyddio NID mewn mannau cyhoeddus a gweithleodd caeedig a sylweddol gaeedig.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth a ddarperir yn y llythyr hwn yn ddefnyddiol, ac edrychaf ymlaen at adroddiad y Pwyllgor ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Yn gywir



**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Minister for Health and Social Services

# Eitem 5



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon